Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llys Hywel

Dyddiad yr arolygiad: 05/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Llys Hywel yn gymuned ddysgu ofalgar a chroesawgar sy’n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth gadarn y pennaeth i ddarparu addysg i bob disgybl mewn awyrgych hapus a diogel yn cael ei rhannu’n bwrpasol gyda’r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae’r ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion yn nodwedd effeithiol o’r ysgol.

Mae arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso yn addas, sy’n hybu gwelliannau yn y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw’r profiadau dysgu bob tro’n herio disgyblion yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu bob tro.

Ar y cyfan, mae cwricwlwm yr ysgol yn ennyn diddordeb disgyblion yn briodol. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu drwy rannu eu syniadau ar ddechrau uned o waith. Er hyn, nid yw’r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys nac yn datblygu dealltwriaeth o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru yn ddigon effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb i adborth athrawon yn bwrpasol ac yn deall beth yw’r camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae gan yr holl staff berthynas waith gynhyrchiol â’r disgyblion sy’n meithrin awyrgylch ofalgar ar draws yr ysgol. Mae trefniadau cefnogi disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gadarn. Mae staff yn defnyddio ystod dda o raglenni cefnogaeth pwrpasol sy’n diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn modelu’r Gymraeg yn effeithiol. Er hyn, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarn at eu dysgu ac mae ymddygiad bron bob un yn gyson dda.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod y profiadau dysgu’n herio disgyblion yn briodol

A2 Sicrhau bod y cwricwlwm yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn briodol ar draws y meysydd dysgu

A3 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026